Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 318 (Cy. 57)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/491 (Cy. 60)) ("Rheoliadau 2006").

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 4 o Reoliadau 2006 (cyfrifo ffioedd) drwy gynyddu'r ffi gymwysadwy sydd i'w thalu am gwrs o driniaeth Band 1, Band 2 a Band 3, ac am gwrs o driniaeth brys.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 318 (Cy. 57)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Mawrth 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *8 Mawrth 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 125 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2024 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2024.

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006**

**2.** Yn rheoliad 4 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**2**) (cyfrifo ffioedd)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "£14.70" rhodder "£20.00";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "£47.00" rhodder "£60.00";

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2006/491 (Cy. 60), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/247 (Cy. 56); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) ym mharagraff (3), yn lle "£203.00" rhodder "£260.00";

(d) ym mharagraff (4), yn lle "£203.00" rhodder "£260.00";

(e) ym mharagraff (5), yn lle "A Band 1 charge, that is to say a charge of £14.70" rhodder "A charge of £30.00".

**Dirymu**

**3.** Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2020([1]) wedi eu dirymu.

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
6 Mawrth 2024

([1]) O.S. 2020/247 (Cy. 56).